



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

[www.cymru.gov.uk](http://www.cymru.gov.uk)

# Llywodraeth Cymru Rheoleiddio Tai

Dyfarniad Rheoleiddiol

Trivallis – L143

Mehefin 2018

Mae gan Weinidogion Cymru bwerau o dan Ran 1 o Ddeddf Tai 1996 i reoleiddio Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig mewn perthynas â'u darpariaeth o ran tai ac mewn perthynas â materion yn ymwneud â llywodraethu a rheolaeth ariannol.

Mae Gweinidogion Cymru yn cyhoeddi'r Dyfarniad Rheoleiddiol hwn o dan adran 33A a 35 o Ddeddf Tai 1996.

Cyhoeddir y dyfarniad hwn yn unol â'r Fframwaith Rheoleiddiol ar gyfer Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yng Nghymru a'r safonau perfformio cysylltiedig.

<http://gov.wales/topics/housing-and-regeneration/services-and-support/regulation/regulatory-framework/?skip=1&lang=cy>

Mae'r dyfarniad yn seiliedig ar werthusiad y Gymdeithas ei hun o'i chydymffurfiaeth â'r safonau perfformiad ynghyd â gwybodaeth reoleiddiol a feithrinwyd drwy drefniadau rheoli cydberthynas cydreoleiddiol parhaus rhwng y Rheoleiddiwr a'r Gymdeithas.

## Sail y Dyfarniad

Nod y dyfarniad hwn yw rhoi dealltwriaeth i'r Landlord Cymdeithasol Cofrestredig, ei denantiaid, defnyddwyr y gwasanaeth a rhanddeiliaid eraill o'i hyfywedd ariannol a pha mor dda y mae'n perfformio, ar adeg benodol mewn perthynas â:

- Llywodraethu a Darparu Gwasanaethau
- Rheolaeth Ariannol

Ni ddylai unrhyw barti arall ddibynnu ar y dyfarniad hwn at unrhyw ddiben arall. Y Landlord Cymdeithasol Cofrestredig sy'n gyfrifol am ba mor gyflawn a chywir yw'r wybodaeth a roddwyd i'r Rheoleiddiwr.

Tîm Rheoleiddio Tai  
Is-adran Datblygu a Rheoleiddio'r Sector Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig  
Llywodraeth Cymru  
Swyddfa Merthyr Tudful  
Rhyd-y-car  
CF48 1UZ  
e-bost: [housingregulation@wales.gsi.gov.uk](mailto:housingregulation@wales.gsi.gov.uk)

## Proffil

Sefydlwyd Trivallis (“y Grŵp”) ar ôl i stoc dai gael ei throsglwyddo o Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ym mis Rhagfyr 2007. Mae'r Grŵp yn berchen ar 10,123 o gartrefi ar 60 o ystadau tai, sy'n eiddo anghenion cyffredinol yn bennaf ond sy'n cynnwys 22 o gynlluniau gwarchod. Yn ogystal, mae'r Grŵp yn gyfrifol am ychydig dros 642 o eiddo ar les. Mae'r Grŵp yn Fodel Cydfuddiannol Cymunedol gyda bron i 5,000 o aelodau. Mae wedi'i gofrestru o dan Ddeddf Cwmnïau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014 gyda rheolau elusennol.

Mae gan y Grŵp nifer o is-gwmnïau anghofrestredig – Porthcwllis, Porthcwllis Homes a Bellerophon Project 1 LLP.

## Data Ariannol Allweddol

	Data Hanesyddol		Terfyn Cyfamod	Cyfartaled d ar gyfer y Sector
	2015/16 Wedi'i ailddatgan	2016/17		2016/17
<b>Perfformiad</b>				
Gwarged gweithredu fel % o'r trosiant	9.4%	11.1%	dd/g	21.3%
Gwarged/(diffyg) ar gyfer y flwyddyn fel % o'r trosiant	6.0%	6.9%	dd/g	6.5%
Colled o eiddo gwag a rhent heb ei gasglu fel % o'r Incwm o renti	5.0%	4.1%	dd/g	2.0%
<b>Cyllid</b>				
Benthyciadau sefydlog fel % o'r cyfanswm	45%	52%	dd/g	74%
Benthyciadau'r Grŵp £ miliwn	66.5m	68.3m	118.3m	dd/g
Mae gan y Grŵp ddigon o gyfleusterau benthycyca gwarantedig i ariannu'r gwariant a ragwelir ar gynnal a chadw a gwella eiddo, ac mae'n gallu creu digon o incwm i dderbyn ac ad-dalu benthyciadau o'r fath.				

## Barn Reoleiddiol – Statws Cydreoleiddio

### **Statws Cydreoleiddio – Mehefin 2018**

#### **Llywodraethu a Gwasanaethau - Safonol**

- Yn nodi ac yn rheoli risgiau newydd a risgiau sy'n datblygu yn briodol.

#### **Hyfywedd Ariannol - Safonol**

- Yn bodloni gofynion o ran hyfywedd ac mae gan y Gymdeithas yr adnoddau ariannol i ymdrin â senarios yn briodol.